OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

**2014 Rhif (Cy. )**

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Ffordd Fynediad Gwaith Dur yr A4810 (Queen's Way), (Llan-wern, Casnewydd) (Gwahardd Troadau Pedol) 2014

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *25 Medi 2014* |
| *Yn dod i rym* | *30 Medi 2014* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Ffordd Fynediad Gwaith Dur yr A4810 (Queen's Way) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y ffordd fynediad"), drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 1(1), 2(1), 2(2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984[1] (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "Deddf 1984"), ac wedi ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Gwent, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

**Enwi a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 30 Medi 2014. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Ffordd Fynediad Gwaith Dur yr A4810 (Queen's Way), (Llan-wern, Casnewydd) (Gwahardd Troadau Pedol) 2014.

**Gwaharddiad**

**2.** Ni chaiff neb beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd wneud troad pedol tra bo'n mynd ar hyd naill ai gerbytffordd tua'r dwyrain neu gerbytffordd tua'r gorllewin y ffordd fynediad wrth bob un o'r cyffyrdd â signalau a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 25 Medi 2014.

*R Morgan*

**RICHARD MORGAN**
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adrannau 1(1), 2(1) a (2) gan Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p.22). Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

**YR ATODLEN**

**GWAHARDD TROADAU PEDOL**

Y gyffordd â signalau 383 o fetrau i'r dwyrain o ganol Cylchfan Glan Llyn.

Y gyffordd â signalau 490 o fetrau i'r gorllewin o ganol Cylchfan Monks Ditch.

Y gyffordd â signalau 709 o fetrau i'r dwyrain o ganol Cylchfan Monks Ditch.

**GORCHYMYN FFORDD FYNEDIAD GWAITH DUR YR A4810 (QUEEN'S WAY), (LLAN-WERN, CASNEWYDD) (GWAHARDD TROADAU PEDOL) 2014**

**HYSBYSIR DRWY HYN** fod Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adrannau 1(1), 2(1) a 2(2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, a fydd yn dod i rym ar 30 Medi 2014.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd pob cerbyd sy'n teithio tua'r dwyrain a'r gorllewin ar Ffordd Fynediad Gwaith Dur yr A4810 (Queen's Way) yn Llan-wern yng Nghasnewydd (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y ffordd fynediad") rhag gwneud troadau pedol ym mhob un o'r lleoliadau a bennir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn.

Yn ystod cyfnod o 6 wythnos o 30 Medi 2014, gellir edrych ar gopi o'r Gorchymyn, ynghyd â phlan, yn rhad ac am ddim, yn ystod oriau swyddfa arferol, yn y lleoliadau canlynol:

- Siop Un Stop Cil-y-coed, Woodstock Way, Cil-

y-coed NP26 5DB;

- Cyngor Sir Fynwy, Neuadd y Sir, Radur, Brynbuga NP15 1GA, a

- Cyngor Dinas Casnewydd, y Ganolfan Ddinesig, Casnewydd NP20 4UR,

neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod.

Os yw unrhyw berson yn dymuno cwestiynu dilysrwydd y Gorchymyn, neu unrhyw ddarpariaeth o'i fewn, ar y seiliau:

a. nad yw o fewn pwerau Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984; neu

b. bod methu â chydymffurfio ag unrhyw un o ofynion y Ddeddf wedi rhagfarnu'n sylweddol yn erbyn ei fuddiannau,

caiff y person hwnnw, o fewn chwe wythnos o 30 Medi 2014, wneud cais i'r Uchel Lys i atal neu ddiddymu'r Gorchymyn neu unrhyw ddarpariaeth sydd ynddo.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar **www.cymru.gov.uk** (Detholer: Deddfwriaeth/ Is-ddeddfwriaeth/ Offerynnau Statudol Lleol/ Gorchmynion Traffig Parhaol', '2014').

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Llywodraeth Cymru, Trafnidiaeth, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

*M Burnell*

**M D BURNELL**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

## YR ATODLEN

## GWAHARDD TROADAU PEDOL

Y gyffordd â signalau 383 o fetrau i'r dwyrain o ganol Cylchfan Glan Llyn.

Y gyffordd â signalau 490 o fetrau i'r gorllewin o ganol Cylchfan Monks Ditch.

Y gyffordd â signalau 709 o fetrau i'r gorllewin o ganol Cylchfan Monks Ditch.